



# Decoding D-Day



Gosodwyd cynllun ar gyfer Operation Overlord, goresgyniad y Cynghreiriaid yn Normandi

Roedd yn cynnwys Operation Neptune, y goresgyniad mwyaf oddi ar y môr erioed

4,000 o longau

11,000 o awyrennau

150,000 o filwyr a'u holl gyflenwadau

Cytunwyd ar y dyddiad 5 Mehefin 1944



Yr hyn yr oedd ei angen arnyn nhw oedd y tywydd iawn, a rhagolwg...

## Pa dywydd oedd ei angen?

- **Tywyllwch** pan aeth y milwyr awyr i mewn, ond golau'r lleuad ar ôl iddyn nhw gyrraedd lawr gwlad
- **Gorchudd cymylau o lai na 30%** o dan 8,000 troedfedd (2,400 metr) ag isafswm sylfaen cymylau heb fod yn is na 2,500 troedfedd i alluogi awyrennau i gario parasiwtyddion a gleiderau tynnu i adleoli a gweledd o fwy na thair milltir (5km). Roedd cyfyngiadau tebyg gyda'r gleiderau
- **Llanw isel** i sicrhau lefel isel iawn i'r môr fel y gallai'r cychod glanio weld ac osgoi rhwystrau a osodwyd gan yr Almaenwyr ar y traethau

## James Stagg

Roedd yn Brif Feteorolegydd i'r  
Cadfridog Eisenhower, yn gweithio i'r  
Swyddfa Dywydd, yr RAF a Llu Awyr yr UD

Roedd yn rhaid i Grŵp-gapten Stagg gynghori  
Cyffredinol Eisenhower beth yr oedd y tywyd  
yn debygol o fod



## James Stagg

Roedd yn Brif Feteorolegydd i'r  
Cadfridog Eisenhower, yn gweithio i'r  
Swyddfa Dywydd, yr RAF a Llu Awyr yr UD

Roedd yn rhaid i Grŵp-gapten Stagg gynghori  
Cyffredinol Eisenhower beth yr  
oedd y tywydd yn debygol o fod

Os ydych chi'n mynd i greu rhagolwg tywydd, y  
peth cyntaf sydd angen i chi ei ddeall yw beth  
yw'r tywydd ar hyn o bryd.

Roedd angen arsylwadau arno ...



## Sut gwnaeth y Swyddfa Dywydd dderbyn yr arsylwadau?

Anfonwyd arsylwadau Tywydd cyfrinachol wedi'i godio i'r Swyddfa Dywydd i gael eu dadgodio

Yna ychwanegwyd y rhain at y siartiau i Stagg wneud ei penderfyniad mawr - a allai D-Day fynd ymlaen ar 5 Mehefin?




## Siart arsylwadau tywydd o 4 Mehefin 6pm

Platiwyd y siart bwysig iawn hon yn y Swyddfa Dywydd, awr cyn bod rhaid i Stagg ddweud wrth Eisenhower am y tywydd disgwylidig ar 5 Mehefin

Yn seiliedig ar yr arsylwadau, dywedodd Stagg na fyddai'r tywydd yn dda ar gyfer goresgyniad Mehefin 5

Yn dilyn y rhagolwg tywydd hwn, penderfynodd y Cadfridog Eisenhower oedi'r goresgyniad am 24 awr

Roedd rhagolwg Stagg yn awgrymu y byddai 'ffenestr dywydd' i'r goresgyniad ddydd Mawrth 6 Mehefin




## Y tywydd ar D-Day

Allwch chi ddehongli'r arsylwadau a fyddai wedi cael eu derbyn gan y Swyddfa Dywydd ar D-Day trwy ddefnyddio'r olwyn seiffro?

A allwn ni eu hysgrifennu ar y map?

Beth yw'r tywydd ar fore D-Day?



7am – 6 Mehefin 1944


## Y tywydd ar D-Day

Profodd y ffenestr tywydd a ragwelwyd gan Stagg i fod yn gywir

Erbyn 1pm, roedd milwyr wedi bod yn glanio oddi ar y môr ers 7 i 8 awr

Os edrychwch yn ofalus, gallwch chi weld mae arsylwad o safle sy'n agos i Caen yn Ffrainc

Hwn yw'r arsylw tywydd cyntaf a gymerwyd gan filwyr y Cynghreiriaid yn dilyn y goresgyniad



1pm – 6 Mehefin 1944

Gallwch chi ddysgu rhagor yn  
[Metoffice.gov.uk/schools](https://www.metoffice.gov.uk/schools)

